OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 396 (Cy.42)

COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU, CYMRU

Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007

Wedi'u gwneud - -	*14 Chwefror 2007*
Yn dod i rym - -	*16 Chwefror 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 28(2) o Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a pharagraff 2 o Atodlen 1 iddi.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 a deuant i rym ar 16 Chwefror 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Comisiynydd" ("*the Commissioner*") yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;

ystyr "y cyfnod cychwynnol" ("*the initial period*") yw the initial period fel y'i diffinnir yn adran 161(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y mae wedi'i chyfansoddi gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**);

ystyr "pobl hŷn berthnasol" ("*relevant older persons*") yw unrhyw bobl hŷn sy'n preswylio yng Nghymru sy'n cael eu dethol at ddibenion penodiad penodol—

(a) yn y fath fodd a chan y fath fodd ag y gellid ei benderfynu gan y pwyllgor perthnasol yn unol â chylch gwaith y pwyllgor, neu

(b) yn absenoldeb penderfyniad o'r fath, yn y fath fodd ag y caiff y Prif Ysgrifennydd ei benderfynu;

ystyr "y Prif Weinidog" ("*the First Minister*") yw'r person a benodir o dro i dro yn Brif Weinidog Cymru yn unol ag adran 46(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

ystyr "y Prif Ysgrifennydd" ("*the First Secretary*") yw'r person a etholir o dro i dro yn Brif Ysgrifennydd y Cynulliad yn unol ag adran 53(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998;

(**1**) 1998 p.38.

ystyr "pwyllgor perthnasol" ("*relevant committee*") yw unrhyw bwyllgor y gellid ei sefydlu o dro i dro gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 54(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 er mwyn darparu cyngor a phenderfynu materion sy'n berthnasol i benodi'r Comisiynydd.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad —

(a) at reoliad â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn sy'n dwyn y Rhif hwnnw;

(b) mewn rheoliad at baragraff â Rhif , yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw sy'n dwyn y Rhif hwnnw.

Penodi'r Comisiynydd

3.—(1) Hyd at ddiwedd y cyfnod cychwynnol caiff y Comisiynydd ei benodi gan y Prif Ysgrifennydd.

(2) Dim ond ar ôl cymryd y canlynol i ystyriaeth y caiff y Comisiynydd ei benodi o dan baragraff (1) —

(a) cyngor pwyllgor perthnasol,

(b) barn pobl hŷn berthnasol ynghylch unrhyw ymgeiswyr a gaiff eu cyfweld ar gyfer y penodiad, ac

(c) cyngor unrhyw banel dewis, a sefydlwyd er mwyn cyfweld ymgeiswyr, ynghylch eu priodoldeb ar gyfer y penodiad.

(3) Ar ôl diwedd y cyfnod cychwynnol caiff y Comisiynydd ei benodi gan y Prif Weinidog.

(4) Ni ellir penodi'r Comisiynydd o dan baragraff (3) ond ar ôl cymryd y canlynol i ystyriaeth —

(a) barn y bobl hŷn hynny sy'n preswylio yng Nghymru ac a ddewiswyd gan y Prif Weinidog am unrhyw ymgeiswyr a gyfwelir ar gyfer y penodiad; a

(b) cyngor unrhyw banel dewis, a sefydlwyd at ddiben cyfweld ag ymgeiswyr ynghylch eu priodoldeb ar gyfer y penodiad.

(5) Yn ddarostyngedig i reoliad 4, pedair blynedd fydd cyfnod swydd y Comisiynydd a benodir o dan y Rheoliadau hyn.

(6) Caniateir i berson a gafodd ei benodi am un cyfnod yn Gomisiynydd gael ei benodi am ail gyfnod (boed yn olynol neu beidio) ond ddim am unrhyw gyfnod ychwanegol.

4.—(1) Hyd at ddiwedd y cyfnod cychwynnol caiff y Prif Ysgrifennydd ryddhau'r Comisiynydd o'i swydd cyn i gyfnod y swydd ddod i ben —

(a) ar gais y Comisiynydd,

(b) ar sail camymddwyn, neu

(c) os bydd wedi'i fodloni nad yw'r Comisiynydd yn alluog oherwydd gwendid meddyliol neu gorfforol i gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd.

(2) Ar ôl diwedd y cyfnod cychwynnol caiff unrhyw swyddogaethau a oedd yn arferadwy yn union cyn diwedd y cyfnod cychwynnol gan y Prif Ysgrifennydd o dan baragraff (1) eu harfer gan y Prif Weinidog.

5.—(1) Os bydd y Prif Ysgrifennydd yn arfer swyddogaethau a roddir gan y Rheoliadau hyn, bydd arfer y swyddogaethau hynny'n cael ei drin fel pe bai'n arfer gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Mae unrhyw beth a gaiff ei wneud gan y Prif Ysgrifennydd o dan y Rheoliadau hyn i'w drin ar ôl diwedd y cyfnod cychwynnol fel pe bai wedi cael ei wneud gan y Prif Weinidog.